**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Medi 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl am 6.00pm.

## <u>YN BRESENNOL</u>

Y Cynghorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Miss E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, S.H. Ratcliffe, Miss R. Siddall, D. Simmons, W. N. Tasker, T. Thomas, y Parch. S. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 45. <u>DECHRAU'R CYFARFOD</u>

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

## 46. <u>YMDDIHEURIADAU</u>

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), B. Blakeley (ymrwymiad arall), B. F. Moylan (yn sâl) ac A. J. Rutherford (ymrwymiad arall).

## 47. <u>COFNODION</u>

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 20fed Gorffennaf 2016 - Rhifau Cofnod 30-44

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Gorffennaf 2016 - Rhifau Cofnod 11-13

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 7fed Medi 2016 - Rhifau Cofnod 14-18

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

<u>Cadarnhau neu fel arall:</u>

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 7fed Medi 2016 - Rhifau Cofnod 38-55

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 48. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau y bu iddi hi a'r Dirprwy Faer eu mynychu dros y mis diwethaf, ac yn arbennig cyngerdd 30ain Pen-blwydd Life Line Plant Chernobyl, Te Mefus Eglwys y Santes Ann, Ffair yr Haf Eglwys Sant Tomos a pherfformiad Jason Donovan yn yr Arena Ddigwyddiadau.

Soniodd y Dirprwy Faer am Seaside Soul yn yr Arena Ddigwyddiadau a'r Sioe Awyr.

Soniodd y ddau am ddigwyddiad "Penwythnos Gwyllt' y Cyngor Tref ei hun a llongyfarch Gunsmoke Communications ar raglen lwyddiannus arall o ddigwyddiadau.

## 49. BARN ARCHWILWYR ALLANOL AR DDATGANIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2015/16

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), adroddiad glân gyda dim ond tri o fân faterion cynghori wedi eu hadnabod, sef:

i) Yn 2015/16 dim ond dau adroddiad ar berfformiad y gyllideb a gyflwynwyd i'w cymeradwyo gan yr Aelodau; dylai fod pedwar (chwarterol).

ii) Bod dyddiad cyfarfod dan lofnod y Cadeirydd ar Ddatganiad Blynyddol y Cyngor wedi ei adael allan.

iii) Yn ôl Canllaw Ymarferwyr Cymru, ystyrir arian a adneuir yng Nghronfa Fenthyciadau'r Sector Cyhoeddus fel buddsoddiad mewn cyfrannau ac mae'r Cyngor wedi cofnodi'r arian fel buddsoddiad syml. Deallir y bydd arian o'r fath yn cael ei ystyried fel buddsoddiad yn y dyfodol, fel sy'n digwydd yng Nghanllaw Ymarferwyr Lloegr, ond gan nad yw'r Cyngor yn buddsoddi yn y gronfa bellach, mae'r mater yn mynd yn bwynt amherthnasol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad.*

## 50. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GWEITHIWR IEUENCTID CYMUNEDOL

Ymhellach i Gofnod Rhif 28 y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Gorffennaf, dywedodd y Maer nad oedd Ms Bensley, yn anffodus, wedi cyrraedd.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn cysylltu â Ms Bensley i ail-drefnu'r cyflwyniad.*

## 51. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – ARCHWILIAD MANNAU AGORED

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er mwyn cael sylwadau Aelodau Wardiau a chadarnhad o'r mathau o fannau agored oedd yn eu Wardiau Trefol unigol, fel yr adnabuwyd gan y Cyngor Sir.

Dywedodd Clerc y Dref mai archwiliad o'r holl fannau agored yn y Rhyl oedd hwn yn y bon, ac y byddai'n ddogfen bwysig i alluogi i adran Gynllunio'r Cyngor Sir sicrhau lefelau priodol o symiau neilltuedig gan ddatblygwyr.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn cyflwyno'r ymatebion a gafwyd.*

**52. EITEM GAN AELOD: CAIS GAN '4 THE COMMUNITY'**

Dywedodd y Cynghorydd Miss S. L. Roberts bod Mr R. Walsh o'r mudiad uchod wedi cysylltu â hi i ofyn am gefnogaeth y Cyngor i dderbyn cyflwyniad gan '4 The Community' sydd wedi ei leoli yn Eglwys y Santes Fair ar Ffordd Wellington.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

**53. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Dywedodd y Maer nad oedd materion brys wedi eu codi er gwybodaeth i'r Aelodau.

**54. HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**55. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**56. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL**

Cyflwynodd Clerc y Dref gofnodion cyfrinachol cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol a gynhaliwyd ar 12fed Medi 2016 (dosbarthwyd yn y cyfarfod) er gwybodaeth i'r Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion a chymeradwyo'r argymhellion.*

**57. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………….……………

Dyddiad: ………………….……